

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd ddiwedd yr wythnos ddiwethaf am farwolaeth Mr Dewi Owen, aelod ffyddlon a gweithgar ym Mheniel. Cyflwynwn ein cydymdeimlad cywiraf â Mair, a'r plant – Phill, Anne, a Meira, a gweddiill y teulu. Hyderwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Parhawn i gofio am Elizabeth Jones (Llansannan) yn yr Inffirmari ac rydym yn ei chyflwyno hi, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd. Cofiw'n hefyd am y rhai hynny sy'n wynebu triniaethau yn y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau atynt, gan hyderu y bydd y triniaethau yn llwyddiannus.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rhian a Dylan Williams (Llansannan) ar enedigaeth merch, chwaer fach i Elena Nansi. Dymunwn fendith Duw arnynt fel teulu.

Operation Christmas Child

Os oes rhai ohonoch wedi bod yn gweu ac/neu wedi bod yn paratoi bocsys ar gyfer y cynllun *Operation Christmas Child*, cofiwch y bydd rhaid i mi eu derbyn gennych erbyn yfory (dydd Llun, Tachwedd 17eg) os ydych am i mi eu hanfon ymlaen i gael eu dosbarthu. Diolch yn fawr, Mair (870632).

I ddod

- **BYW A DWEUD – Diwrnod i'n harfogi a'n hysbrydoli i rannu ein ffydd ag eraill** gyda Graham Daniels, Cyfarwyddwr *Christians in Sport* yn Eglwys Crist, Y Bala dydd Sadwrn, Tachwedd 29ain. £19 fydd cost y diwrnod gan gynnwys cinio yng Ngholeg y Bala, neu £13 os byddai'n well gennych ddod â'ch pecyn bwyd eich hun. Os am ffurflen archebu, ewch i wefan www.souledoutcymru.net neu cysylltwch â Mair.
- **OEDFA'R FRO AR DAITH** – y tro nesaf yng Nghapel y Groes, nos Sul, Tachwedd 30ain am 6.00.
- **HWYL YR WYL** (oedran 7-11) – Dewch i ddysgu mwy am wir ystyr y Nadolig! Sinema, gemau gwirion, parti 'Dolig, a chreffft yng Ngholeg y Bala, dydd Sadwrn, Rhagfyr 6ed o 10.00-5.30. Cost £10.
- **GWASANAETH CAROLAU BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Sul, Rhagfyr 14eg am 6.00. Paned a mins peis i ddilyn. Ymunwch â ni i ddathlu genedigaeth Crist!

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 16^{eg} Tachwedd 2014

Darlleniad y Dydd

Obadeia 1:1-6

(BCND tud.838 / BCN: tud.764)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso cynnes i oedfaon y dydd! Pan fyddwn ni'n chwilio am ymadrodd i ddisgrifio'r adegau (prin) hynny pryd nad oes gennym ddim clem am rywbeth, tybed a fyddwch chi – fel nifer o Gymry eraill – yn defnyddio'r ymadrodd 'does gen i ddim Obadeia'? Hwyrach fod hyn yn adlewyrchiad o'r ffaith fod llyfr y proffwyd Obadeia yn ddirgelwch i'r rhan fwyaf o bobl ac efallai na fydd llawer ohonom ninnau chwaith yn gwybod am ei gynnwys nac wedi ei ddarllen ers tro!

Un o'r rhesymau dros gynnwys darlleniadau'r dydd yn ein hoedfaon ydi'n gorfodi i edrych ar adrannau lled ddieithr o'r Beibl hefo'n gilydd ac, yn sicr, mae llyfrau olaf yr Hen Destament yn fwy dieithr na llyfr y Salmau neu Eiseia, Daniel a Genesis er enghraifft.

Felly, dyma air bach neu ddau am Obadeia i'n helpu, gobeithio! 580 CC – cyfnod yr alltudiaeth ym Mabilon yw dyddiad yr ysgrifennu a dyma'r byrraf o holl lyfrau'r proffwydi – 21 adnod yn unig! Mae'n sgwennu'r 'hyn a ddywed yr Arglwydd am Edom' sef gwlad i'r de o'r Môr Marw. Roedd pobl y wlad yn hanu o ran tras o Esau, efaill Jacob, ac felly doedd hi ddim yn dda – a dweud y lleiaf – rhwng yr Israeliaid a'r Edomiaid. Roedd atgasedd hanesyddol rhyngddynt, a neges Obadeia oedd fod Edom ar fin dod i ben. Mae'n dweud ei bod am gael ei hyrddio i'r llawr er iddi 'esgyn cyn uchod â'r eryr'. (Mynydd-dir uchel o graig goch yw tir Edom.)

Ond roedd yna reswm arall am y drwgdeimlad rhyngddynt. Wrth i rym Persia ehangu o'r dwyrain a bygwth Jerwsalem, dim ond sefyll a gwyllo'r gyflafan a wnaeth yr Edomiaid heb godi bys i helpu'r Israeliaid, eu brodyr i bob pwrpas. A dyma nhw'n casglu'r ysbail wedi'r lladd, a'i gyflwyno i'r Persiaid! Dyna ddiogelu na fyddai cariad na brawdgarwch yn ffynnu byth wedyn rhwng yr Israeliaid a'r Edomiaid. Daw rhybudd difrifol a phroffwydol i Edom yn adnod 10: 'Am y lladdfa, ac am y trais yn erbyn dy frawd Jacob, fe'th orchuddir gan warth'.

Ond darlun o adferiad sydd yn y llyfr. Mae Duw, yn nydd yr Arglwydd, am adfer ei frenhiniaeth dros dir Edom. Mewn gair, bydd yr Israeliaid sydd wedi eu caethgludo a'u trechu i bob pwrpas yn cael eu defnyddio i adfer hawl Duw ar Edom. Bydd y 'rhai dihangol ym Mynydd Seion' (adn. 17) a'r rhai sydd wedi eu gwaredu yn dod i reoli 'mynydd Esau'. (adn. 21)

Penderfyniad tyngedfennol yw sefyll gyda'n brodyr a'n chwiorydd yn y ffydd neu beidio. Dylem sefyll gyda'n brodyr a'n chwiorydd yn y ffydd yn y frwydr fawr, nid edrych arnynt yn syrthio yn y frwydr ac aros am gyfleon i'w hysbeilio.

Diolch i Dduw mai Brawd sydd wedi sefyll hefo ni yw Iesu, concwerwr yn y frwydr ac Arglwydd byw.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 1.15.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun Cymdeithas Llansannan: "Drwy lygad y camera" – noson yng nghwmni Arwyn (Penrallt) Williams, cynhyrchydd a dyn camera teledu, yn y Ffestri am 7.30.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darllenid Wythnos Nesaf

Jona 2:1-10 (BCND tud.840 / BCN: tud.766)